Creu Cymru

# Gweinyddwr y Cynllun Mynediad

**Cyflog: £18,340**
£31,500 FTE y flwyddyn ynghyd â lwfans gweithio gartref o £40 y mis.

**Dyddiad cau: 24 Awst 2026 am 12 o'r gloch**

**Cyfweliadau: 7 - 10 Medi 2026**

**Oriau gwaith:**
24.5 awr yr wythnos, a allai gynnwys oriau anghymdeithasol o bryd i'w gilydd neu waith ar benwythnosau. 98 awr y flwyddyn ynghyd â Gwyliau Cyhoeddus. Ni thelir goramser, ond rhoddir amser i ffwrdd yn lle hynny [TOIL] ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol a weithir yn unol â'r Polisi TOIL.  Bydd angen teithio o fewn y DU a dros y môr fel rhan o'r swydd. Gweithio o bell o unrhyw le yng Nghymru

## Diolch yn fawr am eich diddordeb yn y swydd hon, sef Gweinyddwr y Cynllun Mynediad Creu Cymru.

O hydref 2026 ymlaen, bydd cynllun Hynt, sy'n cael ei arwain gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac sy'n cael ei ddarparu drwy Creu Cymru, yn troi'n I Bawb/All In Wales ac yn croesawu aelodau i'r platfform newydd.

Mae'r fenter newydd hon, sydd wedi'i hysbrydoli gan waith blaenllaw Hynt yn y sector ers iddo gael ei lansio yn 2015, yn dod â chynghorau celfyddydau a phartneriaid o Gymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon at ei gilydd mewn ymrwymiad ar y cyd i gael gwared ar rwystrau ac i wella cysondeb o ran darparu mynediad.

Bydd deiliad y swydd hon yn cefnogi Rheolwr Prosiect y Cynllun Mynediad ar yr adeg bwysig hon i'r prosiect.

Louise Miles-Payne,
Cyfarwyddwr

# Gair am Creu Cymru

MaeCreuCymruynhybusectorcelfyddydauperfformiobywiog Cymru, gan gysylltu pobl, cynulleidfaoedd a chymunedau.

Mae ein haelodaeth yn ffurfio rhwydwaith cydweithredol; a byddwn, gyda llais cryf ac unedig, yn eiriol ar ran y rhwydwaith hwnnw ac yn ei gyflwyno i gyrff llywodraethu cyhoeddus, gan ddylanwadu er mwyn cael newid cadarnhaol a sicrhau cynrychiolaeth hanfodol i'r diwydiant.

Rydyn ni'n darparu arbenigedd, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu i weithlu'r sector yng Nghymru, gan gyfleu barn y gweithlu i ddiwydiant theatr ehangach y DU, ynghyd â llywodraethau Cymru a'r DU. Mae ein haelodaeth yn dwyn ynghyd dros 60 o gwmnïau celfyddydau perfformio, theatrau ac ymarferwyr unigol sy'n cyflogi dros 1,500 o bobl, sy'n cael eu cefnogi gan 1,200 o wirfoddolwyr, ac sy'n gwasanaethu'r 1.2m o bobl sy'n mynd i'r theatr ac i weld perfformiadau yng Nghymru bob blwyddyn. Mae'r nifer hwn yn cynnwys dros 40,000 o aelodau Hynt – cynllun mynediad sydd wedi ennill gwobrau ac yn cael ei redeg gan Creu Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr sydd ag amhariad neu ofynion mynediad penodol.

Mae Creu Cymru am weld sector celfyddydau ffyniannus, cryf a chynhwysol yng Nghymru, lle mae lleisiau amrywiol yn cael eu clywed a'u cynrychioli, a lle gall theatrau a sefydliadau diwylliannol weithredu'n gynaliadwy. Rydyn ni'n cryfhau'r sector drwy ddarparu hyfforddiant, cyngor, rhwydweithiau ar gyfer cymheiriaid, cyfleoedd i weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau ennill sgiliau a phrofiadau newydd, a chynlluniau sy'n galluogi sefydliadau i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd yn fwy effeithiol. Mae ein haelodaeth yn rhwydwaith cydweithredol o 60 o aelodau sy'n cynnwys artistiaid ac ymarferwyr unigol, cyrff celfyddydol cenedlaethol, cwmnïau o bob maint sy'n gweithio ym myd theatr, bale, opera a dawns, theatrau o wahanol feintiau o bob cwr o Gymru a sefydliadau cymorth.

Bob blwyddyn, byddwn yn darparu amrywiaeth o brosiectau sydd wedi cael eu datblygu'n ofalus i ddiwallu anghenion y sector. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaglen Cyfnewid Staff Swits – rhaglen cyfnewid datblygiad proffesiynol ar gyfer staff ar ddechrau eu gyrfa o'n haelod-sefydliadau sy'n gweithio mewn rolau technegol, gweinyddol neu artistig. Drwy'r rhaglen hon, maent yn cael lleoliad am ddim mewn aelod-sefydliad o'u dewis a chymorth i dalu costau teithio a llety. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i alluogi pobl ar ddechrau eu gyrfa yn y celfyddydau perfformio i ehangu eu sgiliau, adeiladu eu rhwydweithiau, a chael cipolwg newydd ar y sector celfyddydau yng Nghymru.
- Prosiect Ehangu Llwyfannau – cynllun sydd â'r nod o gefnogi datblygiad theatrau, cwmnïau cynhyrchu a gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau perfformio yng Nghymru. Cynigir lleoedd drwy gydol y flwyddyn ac mae bwrsariaethau ar gael i helpu gyda chostau tocynnau. Mae dau fath o weithgaredd:
  - Ymweliadau thematig wedi'u curadu sy'n canolbwyntio ar amlygu gweithwyr proffesiynol yn y celfyddydau i waith nad yw'n cael ei raglennu'n gyffredin yng Nghymru er mwyn annog cyfleoedd i archwilio rhaglenni amrywiol, ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd drwy gysylltu â chymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, meithrin dealltwriaeth ynghylch datblygiad artistig a gwerth cyhoeddus a dysgu am fodelau arferion gorau.
  - Cyfleoedd i weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau ymweld ag amrywiaeth eang o gynadleddau a digwyddiadau yn y sector i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd a meithrin cysylltiadau yn y diwydiant.

- Hynt – cynllun cerdyn mynediad cenedlaethol rydyn ni'n ei reoli ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol i wneud yn siŵr bod cynnig cyson ar gael i dros 40,000 o ymwelwyr byddar, anabl neu niwrowahanol a'u cyfeillion hanfodol. Mae'r cynllun hefyd wedi rhoi gwybodaeth a sgiliau i staff theatrau a chanolfannau celfyddydol er mwyn iddynt allu creu amgylcheddau mwy cynhwysol a chroesawgar yn eu lleoliadau, ac mae symposiwm blynyddol Hynt yn rhoi llwyfan i weithwyr proffesiynol yn y diwydiant drafod heriau ac arferion gorau o ran hygyrchedd.
- Mae ein Cynhadledd Flynyddol yn dod â'n haelodau a'r sector ehangach at ei gilydd bob blwyddyn mewn lleoliad celfyddydau perfformio – bydd ein digwyddiad yn 2026 yn cael ei gynnal yn Theatr Clwyd, yr Wyddgrug, ar 21 a 22 Ebrill. Dros ddau ddiwrnod, byddwn yn cyflwyno rhaglen ddwyieithog o siaradwyr gwadd, arddangosiadau gan aelodau, gweithdai a digwyddiadau rhwydweithio sydd wedi'u curadu i gryfhau a chyfoethogi'r celfyddydau perfformio yng Nghymru.
- Cymysgu a Chyflwyno – digwyddiadau sy'n rhoi cyfle i wneuthurwyr theatr, cynhyrchwyr a rhaglenwyr theatr wneud cyflwyniadau gyda'r nod o rannu syniadau newydd ac annog cysylltiadau i wneud iddynt ddigwydd. Bydd y rhai sy'n cyflwyno'n cynrychioli lleisiau sydd wedi'u hen sefydlu a rhai mwy newydd, a'r rheini'n anelu at deithio ar draws amrywiaeth o raddfeydd, genres a chynulleidfaoedd. Maent wedi cynnwys Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Theatr Spectacle, YMa, Theatr Dreigiau Hapus, Theatr Clwyd, Maria Luz Cervantes, Kitsch & Sync Collective, Familia Theatre a Theatr Iolo.
- Bydi Cymraeg – rhaglen sy'n cael ei chyflwyno ar y cyd â'r Galluogwr Cymraeg yng Nghyngor Celfyddydau Cymru i alluogi sefydliadau celfyddydol i roi'r Gymraeg wrth galon eu cynlluniau a'u gweithredoedd creadigol.

Mae eiriol ar ran sector celfyddydau perfformio Cymru hefyd yn rhan hanfodol o'n gwaith. Mae ein haelodau'n cynrychioli bron bob un o theatrau a chanolfannau celfyddydol a chwmnïau cynhyrchu'r wlad sy'n cael eu rhedeg yn broffesiynol, yn ogystal ag amrywiaeth o artistiaid ac ymarferwyr celfyddydol. Mae'r aelodaeth hon yn ffurfio rhwydwaith cydweithredol gyda llais cryfach ac unedig a gyflëir i arweinwyr y sector a'r llywodraeth. Byddwn yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru yn gyson, rydyn ni wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau llywodraeth y DU, a ni yw'r unig bresenoldeb o Gymru ar Fwrdd Theatr y DU a gweithgor CIISA (Awdurdod Safonau Annibynnol y Diwydiannau Creadigol). Rydyn ni hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd ynghylch rôl y celfyddydau perfformio yng Nghymru a'r problemau y mae'r sector yn eu hwynebu. Rydyn ni wedi cynrychioli'r sector ar y BBC, ITV ac S4C ac yn The Stage.

## Mae Creu Cymru yn sefydliad a ariennir dros nifer o flynyddoedd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae manylion ein gwaith i'w gweld yma

Er mwyn eich helpu i ddeall y llwyth gwaith a'r rhaglen ddigwyddiadau, rydyn ni wedi cynnwys cylch blynyddol arferol o weithgareddau Creu Cymru.

# CREU CYMRU PLANNER

| | JAN | FEB | MAR | APR | MAY | JUN | JUL | AUG | SEP | OCT | NOV | DEC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Members meeting | | | | | | | | | | | | |
| Access Forum | | | | | | | | | | | | |
| Training | | | | | | | | | | | | |
| AGM | | | | | | | | | | | | |
| Annual Conference Prep | | | | | | | | | | | | |
| Annual Conference | | | | | | | | | | | | |
| Edinburgh | | | | | | | | | | | | |
| Curated Visits | | | | | | | | | | | | |
| Hynt Symposium | | | | | | | | | | | | |
| Consortium Meetings | | | | | | | | | | | | |
| Mix up and Pitch | | | | | | | | | | | | |
| R&D showings | | | | | | | | | | | | |
| Hynt Training | | | | | | | | | | | | |
| Theatre Green Book events | | | | | | | | | | | | |
| Wellbeing Events | | | | | | | | | | | | |
| Other ad hoc | | | | | | | | | | | | |
| Membership Renewals | | | | | | | | | | | | |
| Board meeting | | | | | | | | | | | | |

# Meysydd Blaenoriaeth Strategol

- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Eiriolaeth, ymchwil ac effaith
- Datblygiad a llesiant y gweithlu
- Arddangos, dathlu ac arloesi
- Yr amgylchedd a chynaliadwyedd
- Aelodaeth ymgysylltiol a chefnogol

## Mae Creu Cymru wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Datblygu sector celfyddydau perfformio mwy cynhwysol yng Nghymru.
- Parhau i ddatblygu dull o weithredu hyblyg ac addasol sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa – un sy'n gwella mynediad at y celfyddydau perfformio proffesiynol ledled Cymru i bawb, ac sy'n rhoi lle canolog i gynllunio ar gyfer y gynulleidfa ar sail tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau.
- Hybu rhagoriaeth gan feithrin talent a thwf cynaliadwy cyflwynwyr a llunwyr perfformiad yng Nghymru ac o Gymru.
- Sicrhau bod ein haelodaeth a'n hallbynnau'n cynnwys pobl sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant ac sy'n profi hiliaeth yn ein cymdeithas, pobl anabl a siaradwyr Cymraeg, ac o fudd iddynt.
- Ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru ym mlaenoriaethau a rhaglenni'r sefydliad.

# Cenhadaeth, Gweledigaeth A Gwerthoedd

### Cenhadaeth

Cryfhau'r celfyddydau perfformio yng Nghymru.

### G werthoedd

Rydyn ni'n gydweithredol, yn ddibynadwy, yn flaengar ac yn gynhwysol ac rydyn ni'n gweithredu'n ddidwyll ym mhopeth a wnawn.

### Gweledigaeth

Bod yn rhwydwaith bywiog ac arloesol o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau perfformio o bob cwr o Gymru. Bydd y rhwydwaith hwn yn hyrwyddo ac yn datblygu ymhellach werth a chydnabyddiaeth ynghylch pwysigrwydd y celfyddydau i gymunedau drwy gysylltu pobl, hyrwyddo syniadau, tyfu arweinyddiaeth a datblygu aelodaeth amrywiol ac ymroddedig.

## Pwrpas y swydd

Mae Creu Cymru yn chwilio am Weinyddwr y Cynllun Mynediad, sy'n hynod drefnus a rhagweithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni a datblygu'r cynllun mynediad (a elwir yn Hynt ar hyn o bryd). Mae Hynt yn gynllun mynediad cenedlaethol sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol ledled Cymru i wella mynediad i bobl Fyddar, anabl a niwroamrywiol.

Mae Gweinyddwr y Cynllun Mynediad yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi agweddau gweithredol a chyfathrebol ar y prosiect. Gan weithio'n agos gyda Rheolwr Prosiect y Cynllun Mynediad, bydd y person a benodir yn gyfrifol am gysylltu â lleoliadau sy'n aelodau a deiliaid cardiau, diweddaru systemau a llwyfannau, a chydlynu gwaith marchnata a chyfathrebu.

Dyma swydd sy'n canolbwyntio ar bobl ac ar fanylion, sy'n berffaith ar gyfer rhywun sy'n frwd dros hygyrchedd yn y celfyddydau ac sy'n fedrus mewn cyfathrebu a gweinyddu.

## Prif Gyfrifoldebau

### Cymorth i Aelodau a Chynulleidfaoedd

- Bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ymholiadau am y cynllun mynediad, gan ddarparu gwybodaeth amserol a chywir i ymgeiswyr, lleoliadau a phartneriaid presennol a phosibl.
- Rhoi cymorth ymatebol ac empathig i danysgrifwyr ac aelodau.
- Rheoli a helpu i ddatrys ymholiadau gan aelodau, gan gynnwys cwynion a materion sy'n ymwneud â gwasanaeth i gwsmeriaid.
- Rhannu gwybodaeth â'r aelodau am ddiweddariadau, cyfleoedd hyfforddi a datblygiadau perthnasol

Cefnogi'r broses o drosglwyddo aelodau a thanysgrifwyr i Gynllun Mynediad Cenedlaethol y DU ac Iwerddon.

- Gweithio gyda'r Rheolwr Prosiect ar hyfforddiant gwasanaeth i gwsmeriaid dwyieithog, fel bod y staff sy'n gyfrifol am danysgrifwyr yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd.

### Marchnata a Chyfathrebu

- Rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol a threfnu i ddiweddaru cynnwys yn rheolaidd, gan gynnwys cyfrif cyfryngau cymdeithasol All In ar gyfer Cymru gyda negeseuon dwyieithog.
- Cydlynu a chynnal cynnwys cyfredol ar y wefan.
- Cynorthwyo gyda chyfieithu a mewnbynnu data ar wefan All In a chyfieithu pob neges ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cefnogi lleoliadau sy'n aelodau i uwchlwytho a diweddaru rhestrau "Beth sy'n digwydd". Cynorthwyo gyda'r gwaith o greu proses sy'n sicrhau cynnwys dwyieithog, gwaith cyfieithu a hapwirio cyson.
- Goruchwylio'r gwaith o lunio a dosbarthu deunyddiau marchnata.
- Cefnogi tîm marchnata canolog All In gyda chwmpasu galluoedd dwyieithog digidol a rhestr bostio ar wahân ar gyfer Cymru.
- Bod yn gyswllt Cymraeg ar gyfer porth All In yng Nghymru er mwyn cynorthwyor'r Rheolwr Prosiect gyda'r gwaith o hwyluso proffiliau tanysgrifwyr ac ateb ymholiadau porth tanysgrifwyr yng Nghymru.

**Cefnogi Digwyddiadau**

- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno'r Symposiwm blynyddol, gan gynnwys rheoli tocynnau ar gyfer y digwyddiad a chyfathrebu â'r rhai sy'n mynychu.
- Cynorthwyo Rheolwr y Prosiect i gyflwyno digwyddiadau neu weithgareddau eraill y cynllun mynediad yn ôl yr angen.

**Systemau a Gweinyddiaeth**

- Diweddaru a chynnal y system CRM gyda chofnodion cywir o danysgrifwyr, aelodau a gweithgarwch.
- Darparu cymorth gweinyddol i Reolwr Prosiect y Cynllun Mynediad yn ôl y gofyn
- Cysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid y prosiect fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r prosiect.

## Manyleb y Person

**Hanfodol:**

- Mae profiad uniongyrchol o anabledd yn ddymunol iawn, yn ogystal ag ymrwymiad cryf i hygyrchedd a chynhwysiant.
- Sgiliau gweinyddol a threfnu cadarn.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol.
- Profiad o roi cymorth i gwsmeriaid neu aelodau, gan gynnwys delio ag ymholiadau a chwynion.
- Gallu gweithio'n annibynnol a rheoli nifer o dasgau ar yr un pryd.
- Empathi, amynedd ac ymrwymiad i arferion cynhwysol a hygyrch.
- Hyderus wrth ddefnyddio offer digidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a gwefannau.
- Rhuglder yn y Gymraeg.

**Dymunol:**

- Profiad mewn sefyllfa gelfyddydol, ddiwylliannol neu elusennol.
- Dealltwriaeth o fynediad a chynhwysiant, yn enwedig yng nghyd-destun anabledd.
- Profiad o ddefnyddio systemau CRM.
- Sgiliau Cymraeg (yn ddymunol ond nid yn hanfodol).

Rhinweddau Personol :

- Hyblygrwydd: Cyfforddus yn gweithio mewn swydd ddeinamig sy’n esblygu.
- Empathi a Chynwysoldeb: Dangos dealltwriaeth o safbwyntiau amrywiol, a meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol.
- Gwydnwch: Cynnal ffocws a phenderfyniad i ysgogi newid yng nghanol heriau.

## Y Gymraeg

Mae angen i chi fod yn rhugl yn y Gymraeg ar gyfer y swydd hon. Rydyn ni'n disgwyl i ddeiliad y swydd gyfathrebu'n hyderus yn Gymraeg ar draws amrywiaeth o gyd-destunau – gan gynnwys digwyddiadau i danysgrifiwyr, sgyrsiau ffôn, negeseuon e-bosy a chreu cynnwys Cymraeg. Ar gyfer gwaith cyfathrebu ar raddfa fwy, byddwn yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu proffesiynol.
Os ydych chi'n frwd dros y swydd ond yn teimlo bod angen datblygu eich sgiliau Cymraeg, rydyn ni'n dal i'ch annog i wneud cais. Rydyn ni'n agored i gefnogi'r ymgeisydd iawn i feithrin hyder a gallu yn y maes hwn.

Mae Creu Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydyn ni’n croesawu ceisiadau ar gyfer y rôl hon gan bobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol yn y celfyddydau, gan gynnwys menywod, pobl o’r mwyafrif byd-eang, LGBTQI+, a phobl ag anableddau.

## Sylwer

Efallai y bydd angen teithio o amgylch y DU ar gyfer y rôl hon, yn enwedig i sefydliadau a lleoliadau sy’n aelodau i ni. Mae mynediad at eich cerbyd eich hun neu drafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol.

Bydd dyletswyddau’n cael eu hadolygu fel rhan o’r broses adolygu flynyddol.

Creu Cymru

# Datganiad Diwylliannol Creu Cymru

## Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Diwylliannol hwn yn seiliedig ar ein llais cyfunol ni, ac mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i gadw at ei werthoedd. Mae pob un ohonom yn llysgenhadon dros y celfyddydau perfformio yng Nghymru ac yn ymfalchïo yn ein gwaith ni ac yng ngwaith ein haelodau.Mae theatr yn golygu llawer o bethau i lawer o bobl yn ein tyb ni, ac rydyn ni'n gweithio'n galed i hyrwyddo ei lle ym mywydau pobl.

### Sut rydyn ni'n trin ein gilydd

- Byddwn yn trin pawb gyda'r un parch.
- Credwn mai ymddiriedaeth yw man cychwyn ein holl ryngweithiadau â'n gilydd.
- Rydyn ni'n cydnabod ein bod ni i gyd yn unigolion. Mae pawb yn meddwl ac yn ymddwyn yn wahanol ac mae amrywiaeth yn gyfoeth. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y gwerth ym mhob un o'n swyddogaethau ac yn sgiliau ein gilydd, fel unigolion neu fel tîm.
- Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ategu ein gwerthoedd, gyda'r rheolwyr yn arwain drwy esiampl. Bydd y Cyfarwyddwr yn gwrando ar unrhyw bryderon/materion a ddaw i'w sylw, ac yn delio â nhw mewn modd sensitif ac adeiladol. Bydd yn cyfathrebu'n drylwyr â'i staff ac yn gwneud ei ddisgwyliadau'n glir er mwyn osgoi dryswch ac anghysonderau.
- Bydd pob un ohonom yn ymddwyn fel oedolion cyfrifol sy'n weithwyr proffesiynol, a dylai pob un ohonom gael ein trin felly.
- Nid oes arnom eisiau diwylliant lle nad yw pobl yn cael cyffwrdd ei gilydd i fynegi cefnogaeth neu gyfeillgarwch. Ond rydyn ni'n cydnabod nad yw ambell un yn dymuno cael ei gyffwrdd o gwbl (byth!) ac mae hynny'n iawn.
- Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i ddangos parch at ein gilydd bob tro y byddwn yn rhyngweithio â'n gilydd. Fel gweithwyr proffesiynol, byddwn yn trefnu cyfarfodydd yn deg, byddwn yn brydlon, byddwn yn bresennol mewn cyfarfodydd ac yn cyfrannu'n llawn, ni fyddwn yn dangos ffafriaeth a byddwn yn caniatáu lle i bob barn.
- Mae pob un ohonom yn gyfrifol am lesiant ein gilydd yn y gwaith. Byddwn yn treulio llawer o amser gyda'n gilydd, felly byddwn yn gwneud ein gorau i wella profiad ein gilydd yn y gwaith.
- Mae pawb yn gallu gwneud camgymeriadau neu weithredu y tu allan i werthoedd ein Datganiad Diwylliannol, ond byddwn yn gwneud pob ymdrech i unioni'r camgymeriadau a wnaed wrth drin eraill. Ni fyddwn yn rhy falch nac yn rhy ystyfnig i ymddiheuro. Byddwn hefyd yn derbyn ymddiheuriadau ac ni fyddwn yn dal dig.

## Ein Hamgylchedd Gwaith

- Byddwn yn cyfathrebu ag eraill er mwyn datrys problemau a thrafod problemau.
- Nid oes gennym ddiwylliant o feio na chywilyddio.
- Dydy gweiddi byth yn iawn yn ein barn ni.
- Mae hi'n iawn rhegi o bryd i'w gilydd i ollwng stêm, ond ni ddylid byth regi ar neb na gwneud hynny mewn ffordd ymosodol.
- Os oes gennym bryder neu broblem, mae gennym gyfrifoldeb i'w godi gyda'n rheolwr llinell neu berson priodol.
- Nid oes arnom eisiau gwahardd yfed alcohol yn gyfan gwbl yn ystod oriau gwaith nac mewn digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Gwyddom fod angen i ni ymddwyn yn gyfrifol ac yfed o fewn ein terfynau ein hunain. Rydyn ni'n cydnabod nad yw pawb yn yfed alcohol ac mae hynny'n hollol iawn hefyd!
- Nid oes arnom eisiau gwahardd na chyfyngu ar bynciau sgwrsio, nac osgoi pynciau anodd. Rydyn ni'n croesawu dadleuon iach a heriau i farn ein gilydd. Rydyn ni hefyd yn gwybod y dylid cymryd cam yn ôl pan fyddwn ni'n sylweddoli bod sgwrs yn mynd yn aflonyddgar neu'n anghyfforddus i ni ein hunain neu i eraill.
- Rydyn ni'n sylweddoli pa mor werthfawr yw gwerthusiadau, beirniadaeth adeiladol ac ôl-drafodaethau ac yn gwybod y gallwn gydnabod y pethau cadarnhaol a dysgu beth y gallwn ei wneud yn well y tro nesaf.
- Rydyn ni'n parchu'r ffaith bod pawb yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Gallai hyn fod yn achlysurol, yn rhan-amser neu ar sail hyblyg.
- Byddwn yn cyfathrebu'n effeithiol â'n gilydd ac yn deall ein bod ni i gyd yn rhan o 'ddarlun mwy' sy'n gweithio tuag at yr un nod.
- Rydyn ni'n deall bod y sefydliad yn ceisio darparu ar gyfer gweithio hyblyg lle bo hynny'n ymarferol, ond rydyn ni'n cydnabod mai'r rheolwr llinell fydd yn gwneud y penderfyniad yn y pen draw.
- Rydyn ni'n sylweddoli bod rhai pobl yn gofyn am gael gweithio'n hyblyg oherwydd ymrwymiadau a/neu faterion personol. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu ar sail "angen gwybod" yn unig.
- Nid oes gennym ddiwylliant o weithio 'oriau hir' o hyd ac o hyd. Gallwn ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnir gennym o fewn oriau gwaith rhesymol ac iach, gan ddeall nad yw pawb yn gweithio yn yr un ffordd. Rydyn ni hefyd yn sylweddoli pa mor bwysig yw rhoi a derbyn. Weithiau bydd angen gwneud 'gwaith y tu allan i oriau' er mwyn cyflawni ein gwaith. Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd fel tîm yn y sefyllfaoedd hyn.

## Sut Rydyn ni'n Rhyngweithio ag Eraill

- Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein croeso cyfeillgar i unrhyw un y byddwn yn rhyngweithio ag ef ar-lein ac yn ein digwyddiadau.
- Byddwn yn aml yn gweithio gyda gweithwyr llawrydd. Disgwyliwn iddynt hwythau ddarllen y datganiad hwn a'i barchu tra byddant yn gweithio gyda ni.
- Mae hiwmor yn hanfodol yn ein tyb ni, ac mae'n hollbwysig i greu amgylchedd gwaith hapus ac iach. Serch hynny, rhaid bod yn ymwybodol y gallai "tynnu coes" un person fod yn destun cywilydd i rywun arall.
- Rydyn ni wrth ein bodd yn dathlu bywydau personol pobl ac yn trefnu cyfleoedd i'w llongyfarch; boed yn swydd newydd, yn ddyweddïad, yn fabi newydd neu'n ymddeoliad.
- Er ein bod ni i gyd yn mwynhau dathlu bywydau ein gilydd, mae angen i bawb gofio y gallai pobl eraill fod yn wynebu anawsterau. Rydyn ni'n cymryd gofal i fod yn ystyriol ac i beidio â 'gor-rannu' gwybodaeth a allai niweidio llesiant rhywun arall.

Bydd y Datganiad Diwylliannol hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn dal i adlewyrchu ein barn gyfunol.

Creu Cymru

## Sut mae gwneud cais

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol, fideo neu sain, yn egluro sut rydych chi'n bodloni'r gofynion yn y disgrifiad swydd (dim mwy na 3 tudalen) at rachel@creucymru.com erbyn 24 Awst 2026 am 12 o'r gloch.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y swydd hon, cysylltwch ag megan@creucymru.com

SYLWER – Er ein bod yn deall y gall deallusrwydd artiffisial helpu a chefnogi pobl yn ystod prosesau ymgeisio am swydd, rydyn ni'n dymuno clywed gennych yn eich geiriau eich hun, a byddwn yn

defnyddio gwiriwrdeallusrwydd artiffisial fel rhan o'r broses ymgeisio.

## Cyflog a buddion

Mae'r swydd hon yn cynnig cyflog o £26,200 pro rata y flwyddyn, yn seiliedig ar wythnos waith 24.5 awr. Rydyn ni'n cynnig 98 awr y flwyddyn yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus a chyfle i weithio'n hyblyg i gefnogi cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith. Mae Creu Cymru yn cau dros gyfnod gwyliau'r

Nadolig acyn darparu gwyliau blynyddol ychwanegol yn ôl disgresiwn.

## Lleoliad

Gweithio o bell o unrhyw le yng Nghymru, gan deithio o bryd i'w gilydd ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.

## Cyfweliad

7 - 10 Medi 2026

www.creucymru.com   creucymruarts   creu-cymru-limited

Severn House,
Hazell Drive,
Newport,
NP10 8FY.

Email: post@creucymru.com

Charity No: 1135304
Company No: 05125340